**Katie Wilby**
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Chief Officer (Streetscene & Transportation)

Chwefror 2025

Annwyl Breswylydd

**Newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu**

O **ddydd Llun 28 Ebrill 2025**, byddwn yn **casglu eich gwastraff na ellir ei ailgylchu** o'ch bin du presennol **bob tair wythnos**, yn hytrach na bob pythefnos.

Fel rhan o'r newid hwn, ni fyddwn yn casglu ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ar ddyddiau Sadwrn mwyach. Mae hyn yn golygu y **gallai eich diwrnod casglu newid hefyd**.

Er y gallai eich diwrnod casglu newid, byddwn yn parhau i gasglu eich:

- gwastraff bwyd, poteli a jariau gwydr, metelau, plastigion a chartonau cymysg, cardfwrdd a phapur, a batris o'r cartref bob wythnos;
- clytiau a chynnyrch hylendid amsugnol bob wythnos, os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn;
- gwastraff clinigol bob wythnos, os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn; a
- gwastraff gardd bob pythefnos rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd, os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth taladwy hwn.

**Cyn i'r newidiadau ddigwydd lle rydych chi'n byw, byddwch yn derbyn gwybodaeth yn cadarnhau'r newidiadau a chalendr yn dangos eich dyddiadau casglu newydd.**

**Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr a'ch calendr eisoes, ond yr hoffech gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn yn y cyfamser, edrychwch ar y Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/NewidiadauirCasgliadau neu cysylltwch â ni.**

Gallwch hefyd wirio eich dyddiadau casglu ar gyfer y dyfodol drwy ymweld â'n gwefan neu gysylltu â ni.

A wyddoch chi y gallwch weld gwybodaeth gwastraff ac ailgylchu wedi'i deilwra ar gyfer eich cartref chi, yn ogystal â chael gwasanaethau eraill y cyngor yn eich ardal leol, gan ddefnyddio ein cyfleuster **Fy Nghyfrif** ar-lein? Gallwch gofrestru ar ei gyfer heddiw drwy sganio'r cod QR neu ymweld â www.siryfflint.gov.uk/FyNghyfrifAilgylchu

Mae eich **ailgylchu** yn gwneud **gwahaniaeth MAWR** yn **Sir y Fflint**. Diolch ichi.
Yn ffyddlon.

Depo Alltami, Ffordd Yr Wyddgrug
Alltami, Yr Wyddgrug
www.siryfflint.gov.uk
Alltami Depot, Mold Road
Alltami, Mold. CH7 6LG
www.flintshire.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ymatebwn yn ddi-oed i ohebiaeth a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg.

We welcome correspondence in Welsh. We will respond to correspondence received in Welsh without delay.

Sir y Fflint yn ailgylchu
Flintshire recycles